# Cyngor Cymuned Tudweiliog
Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog a gynhaliwyd yn y Ganolfan Nos Lun 9fed Mawth 2020

**Presennol**: Sian Parri, Medwyn Jones, Gareth Jones, John Davies, William Owen, Terry Hughes.

**Ymddiheuriadau**: Humphrey Williams, Alan Hughes, Seimon Glyn, Henry Huws

1. Cadeiriwyd gan Sian Parri ac estynnodd groeso i bawb.

2. Derbyniwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**:

a. Arwyddion Porth Colmon – Cafwyd ar ddeall gan Cyngor Gwynedd nad oedd yr adran yn fodlon trosglwyddo'r arwyddion i'r Cyngor Cymuned gan fod perchnogaeth y tir yn parhau yn aneglur. Penderfynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Gillian Walker, Rhiw a Liz Saville Roberts i ofyn iddynt gyfarfod gyda Medwyn Jones a Sian Parri.

b. Harbour Way, Llangwnnadl – Yn dilyn derbyn pryderon gan drigolion lleol ynglŷn â'r bwriad o enwi'r busnes newydd yn Harbour Way, cafodd y Cynghorydd Medwyn Jones air efo perchennog y busnes yn rhoi gwybod iddi am y pryder a'i chynghori i siarad efo'r Cadeirydd hefyd. Yn ystod ei hymweliad a'r Cadeirydd fe ddywedodd ei bod yn sylweddoli fod yr enw'n gamgymeriad ac y byddai yn cysylltu efo'r Adran Drwyddedu i'w newid I enw Cymraeg, a diolchodd i'r Cadeirydd am y cyngor a'r croeso a gafodd. Ar y 9fed o Fawrth aeth y Cadeirydd i ofyn am ddiweddariad, er mwyn adrodd yn ôl i'r Cyngor Cymuned, dywedodd y perchennog fod Adran Drwyddedu'r Cyngor wedi gwrthod iddi newid yr enw ac felly nad oedd yn fwriad ganddi ei newid. Cysylltodd y Cadeirydd a'r Adran Drwyddedu a chael ar ddeall nad oedd y

perchennog wedi cysylltu â’r Adran, ac na fyddai problem i newid yr enw a chynhigiodd yr Adran wneud hyn yn ddi-dâl. Penderfynwyd fod Clerc y Cyngor yn anfon llythyr at y perchennog, yn datgan y pryder. Penderfynwyd hefyd y byddai’r Clerc yn ail ofyn i’r adran Gynllunio os oes hawl newid defnydd wedi ei roi ar yr adeilad.

c. Sedd wag. Erbyn cyfarfod o’r Cyngor Cymuned mis Mawrth, derbynniodd y Cynghorydd lythyr yn datgan fod ei gyfnod fel Cynghorydd wedi dod i ben oherwydd absenoldeb. Bu i’r Clerc gysylltu a Raymond Harvey Swyddog Cofrestru Cyngor Gwynedd. Derbynnwyd rhybudd i’w roi fyny yn y Post ac ar y wefan.

4. **Gohebiaethau:**

a. Ebost Martyn Huws – Derbynnwyd ebost gan Martyn Huws yn gofyn am ymateb i’w gais i’r Cyngor Cymuned ystyried lleoli canolfan ailgylchu ger safle toiledau Tudweiliog. Pendefrynnwyd gwybyddu Martyn Huws nad yw’n fwriad gan y Cynghorwyr osod canolfan o’r fath ar safle mor amlwg yng nghanol y pentref. Gofynodd Martyn Huws hefyd am ymateb y Cyngor Cymuned i ddatgan o blaid/yn erbyn cefnogi annibyniaeth i Gymru mewn egwyddor – penderfynnwyd y bydd hyn yn cael ei drafod eto pan fydd mwy o Gynghorwyr yn bresennol.

b. Derbynnwyd llythyr gan Pared Dewi Sant yn diolch am y cyfraniad. Penderfynnwyd y dylai’r Cyngor cymuned ystyried cyfranu i’r Pared yn flynyddol o hyn allan.

c. Derbynnwyd ebost gan Cyngor Gwynedd yn cynnig cyngor i drigolion a busnesau o ganlyniad iBrexit. Bydd y Clerc yn anfon hwn ymlaen ar ebost i’r Cynghorwyr.

ch. Derbynnwyd ebost yn gwybyddu’r Cyngor o Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig – Gwobr Pentrefi Sir Gaernarfon 2020.

d. Cais Cynllunio C20/0058/46/LL – Caelloi, Dinas. Penderfynwyd Cefnogi

dd. Cais Cynllunio C20/0150/46/LL – Pant Gwyn, Tudweiliog. Penderfynwyd Cefnogi.

5. **Unrhyw fater arall**

a. Derbynnwyd ebost gan Margiad Roberts yn datgan ei phryder ynglyn a'r arfer o osod placia coffaol uniaeth Saesneg yma ac acw yn ardal Tudweiliog. Penderfynnwyd cofnodi'r pryder.

b. Derbynnwyd cwyn fod tyllau drwg ar y ffordd sy'n arwain i lawr i Porth Colmon, bydd y Clerc yn gwybyddu Adran Ffyrdd Cyngor Gwynedd.

6. Cymorth Ariannol – Cyflwynwyd mantolen y Cyngor i'r Cynghorwyr a pasiwyd i gyfrannu fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Mynwentydd Eglwysi Bro Madryn | - £600.00 |
| St Cwyfan £200.00 | |
| St. Marys £200.00 | |
| St. Iestyn £200.00 | |
| Mynwent Tudweiliog | - £500.00 |
| Mynwent Dinas | - £200.00 |
| Canolfan Tudweiliog | - £100.00 |
| Canolfan Llaniestyn | - £100.00 |
| Ambiwlans Awyr | - £250.00 |
| Hospis Dewi Sant | - £100.00 |
| Grwp Mynediad Dwyfor | - £100.00 |
| Canolfan Llangwnnadl | - £50.00 |

CYNHELIR y CTFARFOD NESAF AR 13eg Ebrill 2020
YNG NGHANOLFAN TUDWEILIOG AM 7.15yh